

Canllawiau Rheoli Mwg

Bydd y canllawiau hyn i'w gweld ar dudalennau gwe ar LLYW.Cymru

Tudalen we 1

Canllawiau Ardaloedd Rheoli Mwg ar gyfer Cartrefi a Busnesau

Ardaloedd Rheoli Mwg - Cwestiynau Cyffredin

Beth yw ardaloedd rheoli mwg?

Ardaloedd lle mae rheolau penodol ar waith i leihau llygredd aer yn sgil llosgi tanwydd solet fel glo a phren yw ardaloedd rheoli mwg. Y darnau perthnasol o ddeddfwriaeth yw Deddf Aer Glân 1993 a Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 ('y ddeddfwriaeth').

Mae ardal rheoli mwg yn ardal lle na chaiff pobl a busnesau:

- allyrru mwg o simnai adeilad. Mae hyn yn cynnwys adeiladau awyr agored sydd â simnai, fel hafotai.
- prynu neu werthu tanwydd anawdurdodedig i'w ddefnyddio mewn ardal rheoli mwg oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn offer 'esempt' (offer sydd wedi'i gymeradwyo i'w defnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg).

Pam mae gennym ardaloedd rheoli mwg?

Mae rheolau ardal rheoli mwg ar waith mewn rhai rhannau o'r wlad i leihau llygredd aer yn sgil llosgi tanwydd solet. Llygredd aer yw un o'r risgiau amgylcheddol mwyaf i iechyd y cyhoedd. Mae llosgi tanwydd solet yn cyfrannu'n fawr at fath o lygrydd o'r enw deunydd gronynnol mân, sy'n bresennol mewn mwg. Gall y gronynnau bach hyn niweidio eich ysgyfaint ac organau eraill, a niweidio eich iechyd chi, iechyd eich teulu ac iechyd y gymuned ehangach.

Pa fath o eiddo y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddo?

Mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i unrhyw eiddo sy'n allyrru mwg o simnai adeilad, neu simnai sy'n gwasanaethu ffwrnais unrhyw foeler sefydlog neu gyfarpar diwydiannol sefydlog, ac sydd mewn ardal rheoli mwg. Mae hyn yn cynnwys eiddo preswyl.

Ble mae'r ardaloedd rheoli mwg yng Nghymru?

Ar hyn o bryd mae ardaloedd rheoli mwg mewn pedwar awdurdod lleol yng Nghymru. Y rhain yw Sir y Fflint, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. I wirio a yw eich eiddo mewn ardal rheoli mwg, ewch i'r wefan hon:

<https://mapdata.llyw.cymru/maps/wales-smoke-control-areas-map/>

Beth os nad yw fy eiddo mewn ardal rheoli mwg?

Gall awdurdodau lleol greu ardaloedd rheoli mwg newydd ar unrhyw adeg, ar ôl ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid. Os ydych chi'n credu bod problem gyda llygredd mwg yn eich ardal chi, gallwch annog eich awdurdod lleol i greu ardal rheoli mwg i fynd i'r afael â'r problem.

Hyd yn oed os nad ydych chi'n byw mewn ardal rheoli mwg, dylech bob amser ystyried ffyrdd o wresogi'ch cartref sy'n llygru llai i helpu'r amgylchedd a'ch iechyd chi a'ch cymdogion.

A oes angen i mi newid fy lle tân/stôf os ydw i'n byw mewn ardal rheoli mwg?

Nid oes unrhyw ofyniad i newid eich lle tân neu stôf, felly gallwch gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth heb fod angen unrhyw uwchraddio drud. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar ba fathau o danwydd solet y gallwch eu defnyddio mewn offer hŷn. Er enghraifft, ni chaniateir i chi losgi coed mewn lle tân agored neu stof hŷn os ydych chi'n byw mewn ardal rheoli mwg. Gweler rhagor isod.

Beth os ydw i eisiau gosod stôf newydd?

Rydym yn eich annog i chwilio am ffyrdd eraill o wresogi'ch cartref sy'n llygru llai, ond os mai tanwydd solet yw eich unig opsiwn, edrychwch am y safon Ecodesign sy'n sicrhau bod yr offer yn cyrraedd safonau llym ar gyfer allyriadau ac effeithlonrwydd.

Sut galla i gyfyngu ar allyriadau mwg?

Os mai tanwydd solet yw eich unig opsiwn, ystyriwch newid i danwydd sy'n llygru llai a dilynwch enghreifftiau arfer gorau o losgi'n fwy effeithlon fel <https://www.hetas.co.uk/burn-better/>.

Dylech sicrhau hefyd bod eich offer wedi'i osod yn gywir, yn cael ei weithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn. Rydym yn cynghori bod eich simnai'n cael ei chynnal a chadw gan lanhäwr simneiau proffesiynol ardystiedig bob blwyddyn.

Beth alla i ei losgi mewn ardal rheoli mwg?

Gallwch losgi'r tanwydd canlynol mewn ardal rheoli mwg:

- Tanwydd 'di-fwg': glo carreg, glo carreg rhannol, nwy a glo stêm anweddol isel.
- Tanwydd solet awdurdodedig/ardystiedig a weithgynhyrchwyd, y gallwch ddod o hyd iddo ar y wefan ganlynol: <https://smokecontrol.defra.gov.uk/fuels.php?country=wales>.
- Pren sych, ond dim ond os ydych chi'n defnyddio offer esempt priodol. Ni allwch losgi coed mewn lle tân agored mewn ardal rheoli mwg. Gallwch wirio a yw'ch offer wedi'i eithrio trwy chwilio ar y wefan ganlynol: <https://smokecontrol.defra.gov.uk/appliances.php?country=wales> Dim ond y mathau o danwydd y mae'r gwneuthurwr yn dweud y gellir eu defnyddio yn yr offer y cewch chi eu defnyddio.

Beth allai ddigwydd os na fyddaf yn dilyn y rheolau?

Os ydych chi'n prynu neu'n derbyn tanwydd solet rheoledig (heb eu hawdurdodi), ac nad oes gennych offer esempt i'w losgi, byddwch yn torri'r gyfraith a gallech wynebu dirwy o hyd at £1,000.

Os na fyddwch chi'n defnyddio'r tanwydd a/neu'r offer cywir, gan arwain at allyriadau mwg o'ch simnai, efallai y cewch ddirwy o hyd at £300 am bob trosedd. Mae rhagor o wybodaeth am reolau ardaloedd rheoli mwg ar gael yma: [dolen newydd ar llyw.cymru](#). Yn gyntaf, gellir rhoi Hysbysiad Gwella i chi, sy'n egluro'r rheolau ac yn cynnig cyngor ar effeithiau llygredd o losgi tanwydd solet a sut i leihau eich allyriadau. Os bydd yr allyriadau mwg yn parhau, gellir rhoi Hysbysiad o Fwriad i chi. Yna byddai gennych 28 diwrnod i gynnig sail resymol dros wrthwynebu ac os na chaiff hyn ei dderbyn, gall Hysbysiad Terfynol gael ei roi i chi.

Tudalen we 2

Canllawiau Rheoli Mwg i Awdurdodau Lleol

Cwestiynau Cyffredin i Awdurdodau Lleol

Beth yw manteision Ardal Rheoli Mwg?

Mae ansawdd aer gwael yn cyfrannu at ddatblygu nifer o glefydau gan gynnwys canser, clefyd y galon ac asthma; mae plant, yr henoed a'r rhai sydd â phroblemau anadlu mewn perygl arbennig.

Amcangyfrifir mai llosgi tanwydd solet yn y cartref ac yn fasnachol yw'r ffynhonnell fwyaf o fater gronynnol, yn benodol PM_{2.5} yng Nghymru, a all, o'i anadlu, achosi lliid ar yr ysgyfaint ac achosi niwed hirdymor i iechyd.

Mae rheoli mwg yn offeryn defnyddiol pan gaiff ei ddefnyddio fel rhan o ddull cyfannol o reoli ansawdd aer lleol. Mae'r drefn sancsiynau sifil newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 yn lleihau'r baich prawf i hwyluso ymyrraeth gyflymach gan awdurdodau lleol i fynd i'r afael â mwg sy'n cael ei allyrru yn eu Hardaloedd Rheoli Mwg.

Gallwch gynnig dull a arweinir gan gyngor i annog cydymffurfiaeth heb fod angen cosb ariannol, er bod yr opsiwn hwn ar gael os na chaiff y cyngor ei ddilyn.

Beth yw ardal rheoli mwg?

Mae ardal rheoli mwg yn ardal lle na chaiff pobl a busnesau:

- allyrru mwg o simnai adeilad. Mae hyn yn cynnwys adeiladau awyr agored sydd â simnai hefyd, fel hafotai.
- prynu neu werthu tanwydd anawdurdodedig i'w ddefnyddio mewn ardal rheoli mwg oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn offer 'esempt' (offer sydd wedi'i gymeradwyo i'w defnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg)

Y darnau perthnasol o ddeddfwriaeth yw Deddf Aer Glân 1993 a Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 ('y ddeddfwriaeth').

Pa danwydd ellir ei ddefnyddio mewn ardal rheoli mwg?

Gall cartrefi a busnesau losgi'r tanwydd canlynol mewn ardal rheoli mwg:

- Tanwydd 'di-fwg': glo carreg, glo carreg rhannol, nwy a glo stêm anwedol isel.

- Tanwydd solet awdurdodedig/ardystiedig a weithgynhyrchwyd, y gallwch ddod o hyd iddo ar y wefan ganlynol:
<https://smokecontrol.defra.gov.uk/fuels.php?country=wales>
- Pren sych, ond dim ond wrth ddefnyddio offer esempt priodol. Ni ellir llosgi pren mewn lle tân agored mewn ardal rheoli mwg. Gallwch wirio a yw'ch offer wedi'i eithrio trwy chwilio ar y wefan ganlynol:
<https://smokecontrol.defra.gov.uk/appliances.php?country=wales>. Dim ond y mathau o danwydd y mae'r gwneuthurwr yn dweud y gellir eu defnyddio yn yr offer y cewch chi eu defnyddio.

Sut i greu Ardal Rheoli Mwg newydd

Gallwch ddatgan bod y cyfan neu unrhyw ran o'ch awdurdod yn ardal rheoli mwg. Cyn creu gorchymyn rheoli mwg, rhaid i chi ymgynghori ar eich cynigion gyda'r rhai yr effeithir arnynt gan y newid ac ystyried unrhyw sylwadau cyn bwrw ymlaen. Gallwch ddewis gwneud gwaharddiadau wrth greu gorchymyn rheoli mwg, fel math o le tân neu adeilad.

Er nad yw wedi'i gwmpasu gan y ddeddfwriaeth, byddem yn argymhell eich bod yn cynnal dadansoddiad o fanteision ac effeithiau creu ardal rheoli mwg hefyd. Gallai'r dadansoddiad hwn gynnwys pethau fel nifer y cartrefi a'r busnesau yr effeithir arnynt, faint o eiddo sydd ddim yn cydymffurfio o bosibl adeg cyflwyno'r ardal neu pa mor gadarnhaol y gallai'r effaith ar ansawdd aer lleol fod. Byddai angen ystyried costau'r dadansoddiad hwn yn eich penderfyniad.

Mae camau penodol y mae'n rhaid i chi eu dilyn, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth. Mae canllawiau ar gael o dan 'Creu, amrywio neu ddirymu Ardal Rheoli Mwg' [[insert link](#)].

Sut i amrywio Gorchymyn Rheoli Mwg presennol

Cewch amrywio gorchymyn presennol, er enghraifft, i ymestyn ei ffiniau neu i eithrio adeiladau penodol. Mae'n rhaid i chi ymgynghori ar eich cynigion gyda'r rhai yr effeithir arnynt gan y newid ac ystyried unrhyw sylwadau cyn bwrw ymlaen.

Mae canllawiau manwl ar gael o dan 'Creu, amrywio neu ddirymu Ardal Rheoli Mwg' [[insert link](#)].

Sut i ddirymu Gorchymyn Rheoli Mwg presennol

Cewch ddirymu Gorchymyn Rheoli Mwg presennol, er enghraifft os ydych am ei ddisodli gydag un gorchymyn rheoli mwg i gwmpasu'ch awdurdod cyfan. Mae'n rhaid i chi ymgynghori ar eich cynigion gyda'r rhai yr effeithir arnynt gan y newid, ond mae'r rheolau ychydig yn wahanol ar gyfer gorchymynion hŷn. Os gwnaed eich gorchymyn ar neu ar ôl 13 Tachwedd 1980, gellir codi gwrthwynebiadau'n

uniongyrchol gyda'r awdurdod lleol. Os cafodd ei wneud cyn 13 Tachwedd 1980, rhaid gwneud gwrthwynebiadau'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru a byddant yn penderfynu a oes angen ymchwiliad lleol neu gyfarfod gyda pherson priodol. Mae'n rhaid i chi ystyried unrhyw wrthwynebiadau cyn i chi fwrw ymlaen â'r dirymiad. Mae canllawiau manwl ar gael o dan 'Creu, amrywio neu ddirymu Ardal Rheoli Mwg' [\[insert link\]](#).

Sut i orfodi'r Sancsiynau Sifil?

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, os yw person yn llosgi tanwydd awdurdodedig neu'n defnyddio offer esempt yna ni fydd mwg yn cael ei ollwng ac felly ni ellir rhoi cosb sifil. Os bydd mwg yn cael ei allyrru yna byddwch yn gallu gweithredu ond nid oes rhaid i chi wneud hynny. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y daflen ffeithiau 'Sancsiynau Sifil'. [\[insert link\]](#)

Mae angen i chi gasglu tystiolaeth ffotograffig neu fideo o fwg yn cael ei allyrru o simnai. Gall hyn gael ei gofnodi'n uniongyrchol gan eich swyddogion neu o dystiolaeth a gyflwynir gan ddinasyddion. Er mwyn hwyluso hyn, efallai y byddwch am ddarparu'r swyddogaeth hon ar eich gwefan. Mae'n rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth hon wrth orfodi'r ddeddfwriaeth.

Rydym yn argymhell eich bod yn mabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan gyngor a defnyddio hwn fel eich opsiwn cyntaf bob amser, i godi ymwybyddiaeth o sut mae llosgi tanwydd solet domestig yn cyfrannu at ansawdd aer gwael yng Nghymru a sut y gall effeithio'n andwyol ar iechyd y preswylwyr a'u cymdogion. Ystyriwch rannu enghreifftiau o arfer gorau neu ddulliau newid ymddygiad eraill i hysbysu preswylwyr am beryglon arferion llosgi gwael a'r niwed y gall hyn ei wneud i'w hiechyd a lles eu hunain a'u cymdogion.

Mae templedi ar gael i chi eu hanfon at breswylwyr a busnesau wrth orfodi'r ddeddfwriaeth. [\[insert link\]](#)

A oes rhaid i awdurdod lleol gynnig cymorth ariannol wrth greu gorchymyn rheoli mwg newydd?

Yn y rhan fwyaf o achosion, nac oes. Cafodd y ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu costau addasu ar gyfer cartrefi cyn 1964 ei dileu o'r ddeddfwriaeth gan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024.

Mae dwy adran o Ddeddf Aer Glân 1993 yn ymwneud â chostau addasu wedi cael eu cadw. Mae adran 24 yn ei gwneud yn ofynnol i chi ad-dalu costau addasu lle rydych wedi gofyn yn benodol am y gwaith a gallwch adennill cyfran o'r costau hyn

gan Weinidogion Cymru. Mae adran 26 yn rhoi'r pŵer dewisol i chi dalu am addasiadau i adeiladau crefyddol ac elusennol.

Beth yw'r rheolau ar gyfer gwerthu a phrynu tanwydd mewn ardal rheoli mwg?

Mae'n anghyfreithlon gwerthu a phrynu tanwyddau anawdurdodedig i'w defnyddio lle mae gorchymyn rheoli mwg ar waith, oni bai ei fod ar gyfer offer esempt, mewn adeilad, lle tân, neu foeler sefydlog / cyfarpar diwydiannol sefydlog. Mae'r rhestr o fathau awdurdodedig o danwydd yng Nghymru i'w gweld ar y wefan ganlynol:

<https://smokecontrol.defra.gov.uk/fuels.php?country=wales>

I'r prynwr, mae uchafswm o £100 o ddirwy. I'r manwerthwr, bydd y llys yn penderfynu ar lefel y ddirwy. Dylech wirio hefyd bod manwerthwyr yn cymryd camau i hysbysu cwsmeriaid am y rheolau hyn.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y daflen ffeithiau ar gaffael a gwerthu tanwydd anawdurdodedig'. [\[insert link\]](#)

A yw llongau wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth?

Na, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cynnwys llongau yng Nghymru.

A oes ffyrdd eraill o gyfleu'r neges?

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, rydym yn argymhell eich bod yn rhoi gwybod i'ch Cofrestrfa Tir am eich ardaloedd rheoli mwg. Bydd hyn yn helpu i gyfleu bodolaeth gorchymynion rheoli mwg trwy chwiliadau cyfreithiwr ar gyfer pryniannau tir neu adeiladau arfaethedig.

Tudalen we 3

Canllawiau Ardaloedd Rheoli Mwg ar gyfer Awdurdodau Lleol

Creu, amrywio, neu ddirymu gorchymyn rheoli mwg

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer creu, amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli mwg yn unol â Deddf Aer Glân 1993.

Gallwch **greu** gorchymyn rheoli mwg yn eich ardal, a fydd yn golygu na chaiff pobl a busnesau:

- allyrru swm sylweddol o fwg o simnai
- prynu neu werthu tanwydd solet rheoledig (anawdurdodedig) i'w ddefnyddio mewn adeilad, lle tân, boeler sefydlog neu gyfarpar diwydiannol sefydlog y mae ardal rheoli mwg yn berthnasol iddo/iddi, oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn offer esempt. Ceir rhestr o offer esempt i'w ddefnyddio yng Nghymru yma:
<https://smokecontrol.defra.gov.uk/appliances.php?country=wales> Dim ond y mathau o danwydd y mae'r gwneuthurwr yn dweud y gellir eu defnyddio yn yr offer y cewch chi eu defnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth am orfodi ardaloedd rheoli mwg, ewch i: *insert link on gov.wales when available*

Gellir gweld rhestr o fathau cymeradwy o danwydd i'w defnyddio mewn ardal rheoli mwg yma: <https://smokecontrol.defra.gov.uk/fuels.php?country=wales>

Gellir dirymu neu amrywio gorchymyn rheoli mwg trwy orchymyn dilynol.

Gallwch **amrywio** gorchymyn rheoli mwg sy'n bodoli eisoes yn eich ardal drwy orchymyn dilynol, er enghraifft, os ydych yn dymuno:

- newid ffiniau ardal rheoli mwg
- eithrio rhai adeiladau, lleoedd tân, neu fathau o adeilad neu le tân, neu amrywio unrhyw eithriadau presennol.

Gallwch **ddirymu'ch** gorchymyn rheoli mwg trwy orchymyn dilynol hefyd.

Creu gorchymyn rheoli mwg

Mae'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn rheoli mwg i'w gweld yn [Atodlen 1 i Ddeddf Aer Glân 1993](#).

Cyn gwneud gorchymyn rheoli mwg, mae'n ofyniad cyfreithiol i gyhoeddi hysbysiad yn y London Gazette ac o leiaf unwaith yr wythnos mewn dwy wythnos olynol mewn papur newydd lleol.

Mae'n ofyniad cyfreithiol hefyd i bostio'r hysbysiad am gyfnod o ddim llai na chwe wythnos. Drwy gydol y cyfnod ymgynghori rhaid i chi arddangos copïau o'r hysbysiad mewn sawl man yn yr ardal berthnasol i sicrhau bod pobl yr effeithir arnynt yn ymwybodol o'r cynnig. Enghreifftiau yw meddygfeydd, canolfannau hamdden,

llyfrgelloedd, etc. Yn ogystal, dylid cyhoeddi'r hysbysiad ar wefan yr awdurdod lleol os oes ganddo un.

Rhaid i'r hysbysiad:

- ddatgan eich bod yn bwriadu sefydlu gorchymyn rheoli mwg, ac egluro beth mae hyn yn ei olygu i breswylwyr a busnesau;
- pennu man yn yr ardal berthnasol lle gall unrhyw berson adolygu copi o'r gorchymyn ac unrhyw fap neu gynllun yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol am ddim llai na chwe wythnos o ddyddiad diwethaf cyhoeddi'r hysbysiad; a
- datgan y gall unrhyw berson yr effeithir arno wrthwynebu drwy ysgrifennu at yr awdurdod lleol yn y cyfnod hwnnw.

Rhaid i chi ystyried unrhyw wrthwynebiadau cyn dod â'ch cynnig i rym (gweler isod) a rhaid i'r gorchymyn ddod i rym ddim llai na chwe mis ar ôl iddo gael ei wneud. Gallwch oedi dod â'ch gorchymyn i rym trwy gyhoeddi hysbysiad yn y London Gazette ac o leiaf unwaith yr wythnos mewn dwy wythnos olynol mewn papur newydd sydd ar gael yn yr ardal berthnasol.

Pan fyddwch wedi gwneud y gorchymyn, rhaid i chi hysbysu Gweinidogion Cymru a darparu'r dyddiad y mae'r gorchymyn i ddod i rym neu y daeth i rym. Yna bydd y gorchymyn yn cael ei ychwanegu at MapDataCymru (nid yw'r cam olaf hwn yn ofyniad cyfreithiol).

Amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli mwg a wnaed ar neu ar ôl 13 Tachwedd 1980

I wneud gorchymyn yn amrywio neu'n dirymu gorchymyn rheoli mwg a wnaed ar neu ar ôl 13 Tachwedd 1980, rhaid i chi ddilyn yr un camau ag ar gyfer creu gorchymyn newydd (gweler uchod) fel y nodir yn [Atodlen 1 i Ddeddf Aer Glân 1993](#)¹.

Os mai'r unig ddarpariaeth yw amrywio gorchymyn presennol i eithrio'r canlynol o'ch rheolau ardal rheoli mwg:

- adeiladau penodol neu fathau penodol o adeiladau
- llefydd tân penodol neu fathau penodol o lefydd tân

yna gall ddod i rym ar neu unrhyw adeg ar ôl y dyddiad y caiff ei wneud.

Os yw'r gorchymyn yn gwneud unrhyw amrywiad neu ddirymiad arall, rhaid i'r gorchymyn rheoli mwg ddod i rym ddim llai na chwe mis ar ôl ei wneud.

Rhaid cymryd pob cam arall, fel y nodir yn 'Creu gorchymyn rheoli mwg'.

Amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli mwg a grëwyd cyn 13 Tachwedd 1980

Mae'r weithdrefn ychydig yn wahanol ar gyfer amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli mwg a wnaed cyn 13 Tachwedd 1980. Yn yr achos hwn, mae [Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf Aer Glân 1993](#)² yn gymwys.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1993/11/schedule/1>

² <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1993/11/schedule/5>

Rhaid i chi ddilyn yr un camau ag ar gyfer creu gorchymyn newydd (gweler uchod) ac **yn ogystal**, dim ond **ar ôl iddo gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru** y gall y gorchymyn i amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli mwg a wnaed cyn 13 Tachwedd 1980 ddod i rym. Rhaid cyfeirio unrhyw wrthwynebiadau at Weinidogion Cymru (gweler isod ar gyfer gwrthwynebiadau).

Os ydych yn dymuno amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli mwg a grëwyd cyn 13 Tachwedd 1980, rhaid i chi wneud gorchymyn i'r perwyl hwnnw yn gyntaf, ac yna cyhoeddi hysbysiad yn y London Gazette ac o leiaf unwaith yr wythnos mewn dwy wythnos olynol mewn papur newydd lleol. Rhaid i'r hysbysiad:

- ddatgan eich bod wedi gwneud gorchymyn sy'n amrywio neu'n dirymu gorchymyn rheoli mwg, a fydd yn dod i rym os caiff ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, ac egluro beth mae hyn yn ei olygu i breswylwyr a busnesau;
- pennu man yn yr ardal berthnasol lle gall unrhyw berson archwilio copi o'r gorchymyn, ac unrhyw fap neu gynllun y cyfeirir ato ynddo, gan unrhyw berson yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol am ddim llai na chwe wythnos o ddyddiad diwethaf cyhoeddi'r hysbysiad. Enghreifftiau yw meddygfeydd, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, etc.; a
- datgan y gall unrhyw berson yr effeithir arno, yn y cyfnod hwnnw, wrthwynebu cadarnhau'r gorchymyn drwy ysgrifennu at Weinidogion Cymru (mae hyn yn wahanol i orchmynion a wnaed ar neu ar ôl 13 Tachwedd 1980).

Mae'n ofyniad cyfreithiol hefyd i gyhoeddi'r hysbysiad am gyfnod o ddim llai na chwe wythnos. Efallai mai'r lle mwyaf priodol yw gwefan yr awdurdod lleol os oes ganddo un neu mewn manau cyhoeddus fel meddygfeydd, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, etc.

Rhowch wybod i Weinidogion Cymru cyn eich bwriad i amrywio neu ddirymu gorchymyn a wnaed cyn 13 Tachwedd 1980, fel y gallant fod yn barod ar gyfer unrhyw wrthwynebiadau.

Dylai eich llythyr/e-bost gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- datganiad yn cadarnhau bod y weithdrefn ar gyfer amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli mwg wedi'i chyflawni yn unol â gofynion Deddf Aer Glân 1993;
- copi o'r hysbysiad(au); a
- manylion ble a phryd y cyhoeddwyd yr hysbysiadau.

Unwaith y bydd Gweinidogion Cymru wedi derbyn yr wybodaeth hon ac os na wneir unrhyw wrthwynebiadau, neu os tynnir pob gwrthwynebiad a wneir yn ôl, gall Gweinidogion Cymru gadarnhau'r gorchymyn yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod, naill ai gyda neu heb addasiadau. Mae'r 28 diwrnod hyn yn dechrau unwaith y bydd y cyfnod o ddim llai na chwe wythnos o ddyddiad diwethaf cyhoeddi'r hysbysiad wedi dod i ben. (Gweler isod am wrthwynebiadau.)

Gall gorchymyn ddod i rym ar neu ar unrhyw adeg ar ôl y dyddiad y caiff ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, os mai'r unig ddarpariaeth yw amrywio gorchymyn presennol i eithrio'r canlynol o'ch rheolau ardal rheoli mwg:

- adeiladau penodol neu fathau penodol o adeiladau
- llefydd tân penodol neu fathau penodol o lefydd tân.

Rhaid i orchymyn sy'n gwneud unrhyw amrywiad arall i orchymyn rheoli mwg, neu'n ei ddirymu, ddod i rym ddim llai na chwe mis ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

Bydd angen i chi ysgrifennu at Weinidogion Cymru am ganiatâd os ydych yn dymuno gohirio cyflwyno gorchymyn am fwy na 12 mis neu am gyfnodau sydd, gyda'i gilydd, yn dod i fwy na 12 mis.

Pan fyddwch wedi gwneud y gorchymyn, rhaid i chi hysbysu Gweinidogion Cymru a darparu'r dyddiad y mae'r gorchymyn i ddod i rym neu y daeth i rym. Yna bydd y gorchymyn yn cael ei ddiwygio neu ei dynnu oddi ar MapDataCymru (nid yw'r cam olaf hwn yn ofyniad cyfreithiol).

Gwrthwynebiadau

Wrth greu, amrywio neu ddirymu gorchymynion rheoli mwg a wnaed ar neu ar ôl 13 Tachwedd 1980, rhaid i chi ddarparu manylion cyswllt ynghylch sut y gellir codi gwrthwynebiadau i'ch awdurdod lleol pan fyddwch yn cyhoeddi eich hysbysiad, a rhaid rhoi ystyriaeth i bob gwrthwynebiad cyn y gellir gwneud y gorchymyn rheoli mwg.

Pan fyddwch wedi gwneud y gorchymyn, rhaid i chi hysbysu Gweinidogion Cymru a darparu'r dyddiad y mae'r gorchymyn i ddod i rym neu y daeth i rym. Yna bydd y gorchymyn yn cael ei ddiwygio neu ei dynnu oddi ar MapDataCymru (nid yw'r cam olaf hwn yn ofyniad cyfreithiol).

Wrth amrywio neu ddirymu gorchymynion rheoli mwg a wnaed cyn 13 Tachwedd 1980, mae'r rheolau'n wahanol a rhaid i wrthwynebiadau fynd yn uniongyrchol at Weinidogion Cymru.

Mae'n rhaid i chi roi manylion cyswllt pa wrthwynebiadau y gellir eu codi gyda Gweinidogion Cymru pan fyddwch yn cyhoeddi eich hysbysiad:

E-bost: PolisiAnsawddAer@llyw.cymru

Cyfeiriad post: Polisi Ansawdd Aer, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, Y Deyrnas Unedig CF10 3NQ

Os na wneir gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod o ddim llai na chwe wythnos o ddyddiad diwethaf cyhoeddi'r hysbysiad, neu os tynnir pob gwrthwynebiad a wnaed yn ôl, caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn credu bob hynny'n addas, gadarnhau'r gorchymyn naill ai gyda neu heb addasiadau. Bydd Gweinidogion Cymru'n cadarnhau'r gorchymyn yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau o ddiwrnod olaf y cyfnod o ddim llai na chwe wythnos o ddyddiad diwethaf cyhoeddi'r hysbysiad.

Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, bydd Gweinidogion Cymru naill ai:

- yn trefnu i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, neu
- yn rhoi cyfle i'r gwrthwynebwyr gyflwyno sylwadau'n bersonol gerbron person penodedig.

Bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu ar y camau gweithredu priodol, yn ôl nifer y gwrthwynebiadau a ddaw i law. Caiff Gweinidogion Cymru benodi person i gynnal ymchwiliad a fyddai'n destun y rheolau ynghylch tystion, dogfennau a chostau fel y nodir yn adran 250 o [Ddeddf Llywodraeth Leol 1972](#).

Ar ôl ystyried y gwrthwynebiad ac adroddiad y person a gynhaliodd yr ymchwiliad neu'r person penodedig, caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r gorchymyn gyda neu heb addasiadau.

Tudalen we 4

Canllawiau Ardaloedd Rheoli Mwg ar gyfer Awdurdodau Lleol

Taflen Ffeithiau Sancsiynau Sifil

Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro'r **drefn sancsiynau sifil** yn unol ag Atodlen 1A o Ddeddf Aer Glân 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 a ddaeth i rym ar [nodi dyddiad ar ôl i'r gorchymyn cychwyn gael ei gytuno, sef gwanwyn 2025 yn ôl pob tebyg].

Y prif newid a gyflwynwyd mewn deddfwriaeth ddiweddar yw'r newid o gosb droseddol i sancsiynau sifil am y drosedd o allyrru mwg o simnai adeilad mewn Ardal Rheoli Mwg.

Rydym yn argymhell eich bod yn mabwysiadu **dull sy'n cael ei arwain gan gyngor** ac yn ei ddefnyddio bob amser fel eich opsiwn cyntaf, i godi ymwybyddiaeth o sut mae llosgi tanwydd solet domestig yn cyfrannu at ansawdd aer gwael yng Nghymru a sut gall effeithio'n andwyol ar iechyd y meddianwyr a'u cymdogion. Ystyriwch rannu enghreifftiau o arfer gorau neu ddulliau newid ymddygiad eraill i hysbysu meddianwyr am beryglon arferion llosgi gwael a'r niwed y gall hyn ei wneud i'w hiechyd a lles eu hunain a'u cymdogion.

Roedd gan Ddeddf Aer Glân 1993 eithriadau i'r sancsiynau troseddol mewn perthynas ag allyrru mwg wrth ddefnyddio offer neu danwydd a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r eithriadau hyn (y cyfeirir atynt yn aml fel **amddiffynfeydd**) wedi'u dileu er mwyn hwyluso ymyrraeth gyflymach i fynd i'r afael ag allyriadau mwg.

Mae'r **safon sifil** yn golygu bod angen lefel is o brawf i benderfynu a yw'r gyfraith wedi'i thorri, h.y. rhaid i chi gymhwysu'r hyn sy'n debygol yn hytrach na'r hyn sydd y tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gasglu tystiolaeth i brofi bod mwg yn cael ei allyrru o'r simnai.

Mae angen i chi gasglu **tystiolaeth** ffotograffig neu fideo o fwg yn cael ei allyrru o simnai. Gall hyn gael ei gofnodi'n uniongyrchol gan eich swyddogion neu o dystiolaeth a gyflwynir gan ddinasyddion. Er mwyn hwyluso hyn, efallai y byddwch am ddarparu'r swyddogaeth hon ar eich gwefan. Mae'n rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth hon wrth orfodi'r deddfwriaeth.

Gellir codi **cosbau** ariannol sifil ond dylid eu defnyddio fel dewis olaf, pan fydd dulliau ymgysylltu a thechnegau newid ymddygiad eraill wedi methu.

Y camau y dylech eu dilyn yw:

- Siarad â'r deiliad tŷ neu fusnes a chynnig cyngor.
- Rhoi hysbysiad gwella. Nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol ond mae'n cefnogi dull a arweinir gan gyngor Gweinidogion Cymru o leihau allyriadau mwg ac fe'i hargymhellir yn fawr. Gallwch ategu'r llythyr cychwynnol hwn gyda thafleenni cyngor, os oes rhai ar gael.
- Os bydd yr allyriadau'n parhau, rhoi hysbysiad o fwriad.

- Rhoi hysbysiad terfynol gyda chosb ariannol.

Gallwch roi hysbysiad drwy:

- ei roi i'r person sy'n gyfrifol.
- ei adael yng nghyfeiriad y person.
- ei anfon drwy'r post at y person yn ei gyfeiriad.
- ei e-bostio at y person (os ydych wedi cael ei ganiatâd).

Gallwch roi cosb ariannol i unrhyw un o'r canlynol am allyriadau mwg mewn ardal rheoli mwg:

- deiliad yr adeilad gyda'r simnai – er enghraifft, perchennog y cartref neu'r tenant.
- perchennog y boeler sefydlog neu gyfarpar diwydiannol sefydlog y mae'r simnai'n ei wasanaethu.

Mae templedi ar gael i chi eu hanfon at breswylwyr a busnesau wrth orfodi'r ddeddfwriaeth. [\[insert link\]](#)

Swm y gosb ariannol

Mae'r cosbau ariannol yn amrywio o isafswm o £175 i uchafswm o £300 am bob hysbysiad o fwriad a anfonwch. Dylech ddatblygu a chofnodi eich polisi eich hun ar faint i'w godi ar y rhai sy'n gyfrifol am allyriadau mwg, a dylid ystyried difrifoldeb y drosedd neu a yw'n cael ei hailadrodd.

Gallwch gadw unrhyw incwm a dderbynnir o'r cosbau ariannol. Mae'n arfer da cadw cofnod o gosbau ariannol a gasglwyd. Gallai'r wybodaeth hon gynnwys:

- nifer y cosbau ariannol a roddwyd.
- nifer y cosbau ariannol a gasglwyd.
- y swm a gasglwyd.

Tudalen we 5

Canllawiau Ardaloedd Rheoli Mwg ar gyfer Awdurdodau Lleol

Prynu a Gwerthu Tanwydd Anawdurdodedig

Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro Caffael a Gwerthu Tanwydd Anawdurdodedig mewn ardal rheoli mwg, yn unol â Deddf Aer Glân 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024.

Mae'n anghyfreithlon prynu a gwerthu tanwydd anawdurdodedig i'w ddefnyddio lle mae gorchymyn rheoli mwg ar waith, oni bai ei fod ar gyfer offer esempt mewn adeilad, lle tân, neu foeler sefydlog / cyfarpar diwydiannol sefydlog. Mae'r rhestr o fathau awdurdodedig o danwydd yng Nghymru i'w gweld ar y wefan ganlynol: <https://smokecontrol.defra.gov.uk/fuels.php?country=wales> Mae'r rhestr o offer esempt yng Nghymru i'w gweld ar y wefan ganlynol: <https://smokecontrol.defra.gov.uk/appliances.php?country=wales>

Gallwch erlyn prynwr tanwydd os bydd yn torri'r rheol hon gyda dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000).

Gallwch erlyn manwerthwr os bydd yn torri'r rheol hon a bydd y llys yn penderfynu ar lefel y ddirwy. Dylech wirio hefyd bod manwerthwyr yn cymryd camau i hysbysu cwsmeriaid am y rheolau hyn, er enghraifft, trwy roi arwydd wrth ymyl y tanwydd neu'r til, neu neges wrth dalu ar-lein.

O dan y ddeddfwriaeth, gall manwerthwr ddefnyddio unrhyw un o'r canlynol fel amddiffyniad os gall brofi seiliau rhesymol dros gredu—

- (a) nad oedd yr adeilad yn un yr oedd y gorchymyn rheoli mwg o dan sylw yn berthnasol iddo, neu
- (b) y prynwyd y tanwydd i'w ddefnyddio mewn—
 - (i) lle tân a oedd, ar adeg danfon y tanwydd, yn lle tân esempt, neu
 - (ii) boeler neu gyfarpar nad oedd y gorchymyn rheoli mwg yn berthnasol iddo.

Sylwch fod y ddogfen enghreifftiol hon wedi'i darparu i gynorthwyo gweithgareddau gorfodi awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar ddefnyddio'r ddogfen enghreifftiol hon.

Templed Enghreifftiol 1 - Hysbysiad Gwella

[Manylion/logo'r Cyngor]

[Dyddiad]

Rhowch enw (os yw'n hysbys)

a chyfeiriad yr eiddo

HYSBYSIAD GWELLA Deddf Aer Glân 1993 (fel y'i diwygiwyd)

Hysbysiad Gwella yn dilyn Allyrru Mwg o Simnai mewn Ardal Rheoli Mwg

Annwyl Ddeiliad Tŷ (ychwanegwch enw os yw'n hysbys)

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod mwg wedi'i weld yn dod o'ch simnai ar xxx [dyddiad y digwyddiad] ac rydym wedi derbyn tystiolaeth ffotograffig a/neu fideo. Gan eich bod yn byw mewn ardal rheoli mwg, mae'n anghyfreithlon rhyddhau mwg o'ch simnai. Mae ATODLEN 1A i Ddeddf Aer Glân 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024, yn darparu ar gyfer cosbau ariannol mewn perthynas ag allyrru mwg mewn ardaloedd rheoli mwg yng Nghymru.

Diben yr hysbysiad gwella hwn yw eich gwneud yn ymwybodol o'r rheolau ardal rheoli mwg a'ch hysbysu y gallech gael dirwy os gwelir mwg yn dod o'ch simnai eto.

Mae rheolau ardaloedd rheoli mwg ar waith mewn rhai rhannau o'r wlad er mwyn lleihau llygredd aer o losgi tanwydd solet. Llygredd aer yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd. Mae llosgi tanwydd solet yn cyfrannu'n fawr at fath o lygrydd o'r enw deunydd gronynnol mân, sy'n bresennol mewn mwg. Gall y gronynnau bach hyn niweidio eich ysgyfaint ac organau eraill, a niweidio eich iechyd chi, iechyd eich teulu ac iechyd y gymuned ehangach.

Gallwch losgi'r tanwydd canlynol mewn ardal rheoli mwg:

- tanwydd 'di-fwg': glo carreg, glo carreg rhannol, nwy a glo stêm anweddol isel.

- Tanwydd solet awdurdodedig/ardystiedig a weithgynhyrchwyd, y gallwch ddod o hyd iddo ar y wefan ganlynol:
<https://smokecontrol.defra.gov.uk/fuels.php?country=wales>
- Pren sych, ond dim ond os ydych chi'n defnyddio offer esempt priodol. Ni allwch losgi coed mewn lle tân agored. Gallwch wirio a yw'ch offer wedi'i eithrio trwy chwilio ar y wefan ganlynol:
<https://smokecontrol.defra.gov.uk/appliances.php?country=wales> Dim ond y mathau o danwydd y mae'r gwneuthurwr yn dweud y gellir eu defnyddio yn yr offer y cewch chi eu defnyddio.

Dylech sicrhau hefyd bod eich offer wedi'i osod yn gywir, yn cael ei weithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn. Rydym yn cynghori bod eich simnai'n cael ei chynnal a'i chadw gan ysgubwr simneiau proffesiynol ardystiedig bob blwyddyn. Mae llawer o adnoddau ar gael i'ch helpu i losgi'n fwy effeithlon, fel <https://www.hetas.co.uk/burn-better/>

Cyn belled â'ch bod yn dilyn y rheolau hyn, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, os na fyddwch yn defnyddio'r tanwydd a/neu'r offer cywir, gan arwain at allyriadau mwg o'ch simnai, efallai y cewch ddirwy o hyd at £300. Mae rhagor o wybodaeth am reolau ardaloedd rheoli mwg ar gael yma: [insert new link on gov.wales](#)

Llofnod

Dyddiad

Sylwch fod y ddogfen enghreifftiol hon wedi'i darparu i gynorthwyo gweithgareddau gorfodi awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol gael eu cynngor cyfreithiol eu hunain ar ddefnyddio'r ddogfen hon.

Templed Enghreifftiol 2 - Hysbysiad o Fwriad

[Manylion/logo'r Cyngor]

[Dyddiad]

Rhowch enw [os yn hysbys]

a chyfeiriad yr eiddo

Deddf Aer Glân 1993 (fel y'i diwygiwyd)

HYSBYSIAD O FWRIAD I ROI COSB ARIANNOL

AM ALLYRRU MWG MEWN ARDAL RHEOLI MWG

Annwyl Ddeiliad Tŷ [ychwanegwch enw os yw'n hysbys],

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'n bwriad i roi hysbysiad cosb o £xxx [nodwch swm rhwng £175-£300] i chi yn dilyn allyriadau mwg o simnai eich cyfeiriad ar xxx [nodwch y dyddiad a'r amser].

- Mae eich cyfeiriad mewn ardal rheoli mwg - gweler y map rhyngweithiol am wybodaeth: <https://mapdata.llyw.cymru/maps/wales-smoke-control-areas-map/>.
- Rydym yn atodi'r dystiolaeth ganlynol o allyriadau mwg yn y cyfeiriad ac ar y dyddiad uchod [atodwch unrhyw dystiolaeth sydd gennych e.e., ffotograff o allyriadau mwg, dolen i fideo].
- Mae hyn yn dilyn yr Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd ar xxx [nodwch y dyddiad].

Fel [meddiannydd(meddiannwyr) yr adeilad] [y person(au) sydd â meddiant o'r boeler neu'r cyfarpar], chi yw'r person(au) sy'n gyfrifol am allyrru mwg yn yr ardal rheoli mwg. Felly, rydym yn bwriadu rhoi cosb ariannol i chi o dan Atodlen 1A i Ddeddf Aer Glân 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024, yn gwahardd rhyddhau mwg o simnai mewn ardal rheoli mwg.

Byddwn yn rhoi cosb o £xxx [nodwch swm rhwng £175-£300] i chi. Mae gennych hawl i wrthwynebu'r gosb hon o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl i'r hysbysiad hwn gael ei roi. Dylech ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol a chynnwys unrhyw dystiolaeth ategol: xxx [manylion cyswllt]. Y seiliau rhesymol dros wrthwynebu yw:

- nid oedd mwg yn cael ei allyrru o'r simnai ar yr adeg a nodir yn yr Hysbysiad o Fwriad hwn
- nid oedd gorchymyn rheoli mwg yn berthnasol i'r simnai ar yr adeg a nodir yn yr Hysbysiad o Fwriad hwn
- nid chi oedd yn gyfrifol am y simnai ar yr adeg a nodir yn yr Hysbysiad o Fwriad hwn. Yn yr achos hwn, rhaid i chi roi enw a chyfeiriad y person a oedd yn atebol ar y pryd (os ydych chi'n gwybod)
- mae rhesymau cymhellol eraill pam na ddylid rhoi'r gosb ariannol

Mae rheolau ardaloedd rheoli mwg ar waith er mwyn lleihau llygredd aer yn sgil llosgi tanwydd solet. Llygredd aer yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd y cyhoedd. Mae llosgi tanwydd solet yn cyfrannu'n fawr at fath o lygrydd o'r enw deunydd gronynnol mân, sy'n bresennol mewn mwg. Gall y gronynnau bach hyn niweidio eich ysgyfaint ac organau eraill, a niweidio eich iechyd chi a'ch teulu.

Gallwch losgi'r tanwydd canlynol mewn ardal rheoli mwg:

- tanwydd 'di-fwg': glo carreg, glo carreg rhannol, nwy a glo stêm anweddol isel.
- Tanwydd solet awdurdodedig/ardystiedig a weithgynhyrchwyd, y gallwch ddod o hyd iddo ar y wefan ganlynol:
<https://smokecontrol.defra.gov.uk/fuels.php?country=wales>
- Pren sych, ond dim ond os ydych chi'n defnyddio offer esempt priodol. Ni allwch losgi coed mewn lle tân agored. Gallwch wirio a yw'ch offer wedi'i eithrio trwy chwilio ar y wefan ganlynol:
<https://smokecontrol.defra.gov.uk/appliances.php?country=wales> Dim ond y mathau o danwydd y mae'r gwneuthurwr yn dweud y gellir eu defnyddio yn yr offer y cewch chi eu defnyddio.

Dylech sicrhau hefyd bod eich offer wedi'i osod yn gywir, yn cael ei weithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn. Rydym yn cynghori bod eich simnai'n cael ei chynnal chadw gan ysgubwr simneiau proffesiynol ardystiedig bob blwyddyn.

Llofnod

Dyddiad

[cofiwch GYNNWYS tystiolaeth yn sefydlu allyriadau mwg gyda'r llythyr hwn]

ATODLEN 1A i Ddeddf Aer Glân 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024: COSB AM ALLYRRU MWG MEWN ARDAL RHEOI MWG YNG NGHYMURU

Mae 19E Deddf Aer Glân 1993: Atodlen 1A yn gwneud darpariaeth ar gyfer cosbau ariannol mewn perthynas ag allyriadau mwg mewn ardaloedd rheoli mwg yng Nghymru.”

In this Schedule—

“Relevant chimney” means—

- a) a chimney of a building to which a smoke control order in Wales applies, or
- b) a chimney which serves the furnace of any fixed boiler or industrial plant to which a smoke control order in Wales applies.

“Person liable”, in relation to a relevant chimney, means—

- a) if the chimney is the chimney of a building, the occupier of the building, or
- b) if the chimney serves the furnace of any fixed boiler or industrial plant, the person having possession of the boiler or plant.

Sylwch fod y ddogfen enghreifftiol hon wedi'i darparu i gynorthwyo gweithgareddau gorfodi awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar ddefnyddio'r ddogfen enghreifftiol hon.

Templed Enghreifftiol 2a - Ymateb i Wrthwynebiad

[Manylion/logo'r Cyngor]

[Dyddiad]

Nodwch enw

a chyfeiriad yr eiddo

YMATEB I WRTHWYNEBIAD

COSB ARIANNOL AM ALLYRRU MWG MEWN ARDAL RHEOLI MWG

Annwyl xx [insert name],

Yn dilyn yr Hysbysiad o Fwriad i roi Cosb Ariannol am Allyrru Mwg mewn Ardal Rheoli Mwg, a gyflwynwyd ar xxx [dyddiad cyflwyno] ar gyfer y cyfeiriad uchod a'ch llythyr gwrthwynebiad dilynol dyddiedig xxx [nodwch y dyddiad], rydym yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o ganlyniad y gwrthwynebiad.

Mae'r penderfyniad canlynol wedi'i wneud:

[Dewiswch 1 opsiwn]

[Opsiwn 1] Ni wnaethoch wrthwynebu'r Hysbysiad o Fwriad a gyflwynwyd ar [dyddiad rhoi] o fewn 28 diwrnod a rhaid i chi dalu cosb ariannol o £xxx [nodwch y swm fel y'i nodwyd yn y llythyr Hysbysiad o Fwriad] am ryddhau mwg o simnai mewn ardal rheoli mwg.

[Opsiwn 2a] Rydych wedi gwrthwynebu o fewn y cyfnod perthnasol, ond nid ydym yn derbyn y rheswm (rhesymau) am eich gwrthwynebiad. Rydych chi'n honni **nad oedd mwg yn cael ei allyrru** o'r simnai ar yr adeg a nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad. Fodd bynnag, gwnaethom ddarparu tystiolaeth ffotograffig/fideo i'r gwrthwyneb sy'n dangos yn glir allyriadau mwg o'ch eiddo ar y dyddiad a'r amser a nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad. Mae'n rhaid i chi dalu cosb ariannol o £xxx [nodwch y swm fel y'i nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad] am ryddhau mwg o simnai mewn ardal rheoli mwg.

[Gallwch gyflwyno Templed 3 – Hysbysiad Terfynol ar unwaith.]

[Opsiwn 2b] Rydych wedi gwrthwynebu o fewn y cyfnod perthnasol, ond nid ydym yn derbyn y rheswm (rhesymau) am eich gwrthwynebiad. Rydych chi'n honni **nad oedd gorchymyn rheoli mwg yn berthnasol** i'r simnai ar yr adeg a nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad. Mae eich cyfeiriad mewn ardal rheoli mwg, fel y nodir ar y map rhyngweithiol i ni ei rannu gyda chi yn yr Hysbysiad o Fwriad.

<https://datamap.gov.wales/maps/wales-smoke-control-areas-map/> Rhaid i chi dalu cosb ariannol o £xxx [nodwch y swm fel y'i nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad] am ryddhau mwg o simnai mewn ardal rheoli mwg.
[Gallwch gyflwyno Templed 3 – Hysbysiad Terfynol ar unwaith.]

[Opsiwn 2c] Rydych wedi gwrthwynebu o fewn y cyfnod perthnasol ond yn honni **nad oeddech chi'n gyfrifol** am y simnai ar yr adeg a nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad. Yn yr achos hwn, rhaid i chi roi enw a chyfeiriad y person a oedd yn atebol ar y pryd (os ydych chi'n gwybod).
[Rhaid i chi gyflwyno Templed 2 – Hysbysiad o Fwriad i'r enw a roddir.]

[Opsiwn 2d] Rydych yn gwrthwynebu o fewn y cyfnod perthnasol, ond nid ydym yn derbyn y rheswm (rhesymau) am eich gwrthwynebiad. Rydych yn honni bod **rhesymau cymhellol** pam na ddylid cyflwyno'r gosb ariannol. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno bod y rhesymau hyn yn amddiffyniad addas yn erbyn y drosedd o ryddhau mwg o simnai mewn ardal rheoli mwg. Mae'n rhaid i chi dalu cosb ariannol o £xxx [nodwch y swm fel y'i nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad] am ryddhau mwg o simnai mewn ardal rheoli mwg.
[Gallwch gyflwyno Templed 3 – Hysbysiad Terfynol ar unwaith.]

[Opsiwn 3a] Rydych wedi gwrthwynebu o fewn y cyfnod perthnasol ac rydym yn derbyn y rheswm dros eich gwrthwynebiad. Rydym yn cytuno **nad oedd mwg yn cael ei allyrru** o'r simnai yn y cyfeiriad uchod ar yr adeg a nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad. Ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

[Opsiwn 3b] Rydych wedi gwrthwynebu o fewn y cyfnod perthnasol ac rydym yn derbyn y rheswm dros eich gwrthwynebiad. **Nid oedd gorchymyn rheoli mwg yn berthnasol** i'r simnai yn y cyfeiriad uchod ar yr adeg a nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad. Ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

[Opsiwn 3c] Rydych wedi yn gwrthwynebu o fewn y cyfnod perthnasol ond **nid oeddech yn gyfrifol** am y simnai ar yr adeg a nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad. Rydych wedi rhoi enw a chyfeiriad y person a oedd yn atebol ar y pryd. Ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

[Opsiwn 3d] Rydych wedi gwrthwynebu o fewn y cyfnod perthnasol ac rydym yn derbyn y rheswm dros eich gwrthwynebiad. Rydych yn honni bod **rhesymau cymhellol** pam na ddylid gosod y gosb ariannol ac rydym yn cytuno. Ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

Llofnod

Dyddiad

Sylwch fod y ddogfen enghreifftiol hon wedi'i darparu i gynorthwyo gweithgareddau gorfodi awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar ddefnyddio'r ddogfen enghreifftiol hon.

Templed Enghreifftiol 3 - Hysbysiad Terfynol

[Manylion/logo'r Cyngor]

[Dyddiad]

Nodwch enw

a chyfeiriad yr eiddo

HYSBYSIAD TERFYNOL

DEDDF AER GLÂN 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

**HYSBYSIAD TERFYNOL O'R GOSB ARIANNOL AM ALLYRRU MWG MEWN
ARDAL RHEOLI MWG**

Annwyl ...[insert name],

Yn dilyn Hysbysiad o Fwriad o Gosb Ariannol am Allyrru Mwg mewn Ardal Rheoli Mwg, a gyflwynwyd ar [dyddiad cyfwyno] ar gyfer [nodwch y cyfeiriad], rydym yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod yn rhaid i chi dalu cosb ariannol o xxx [nodwch y swm fel y'i nodwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad] am ryddhau mwg o simnai mewn ardal rheoli mwg.

Rydym yn rhoi'r gosb hon gan [dewiswch un]:

- na wnaethoch chi wrthwynebu'r Hysbysiad o Fwriad a gyflwynwyd ar [dyddiad cyflwyno] o fewn 28 diwrnod
- i chi wrthwynebu o fewn y cyfnod perthnasol ond, fel y nodir yn ein Hymateb i'r Gwrthwynebiad a gyflwynwyd ar xxx [nodwch ddyddiad], ni wnaethom dderbyn y rhesymau dros eich gwrthwynebiad.

Gallwch dalu'r gosb hon drwy [nodwch wybodaeth am sut i dalu]

Rhaid i chi dalu'r gosb ariannol hon cyn pen 28 diwrnod. Gall methu â gwneud hynny arwain at orfodi'r taliad drwy'r llysoedd.

Mae gennych hawl i apelio o fewn y cyfnod o 28 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl i'r hysbysiad hwn gael ei roi. Gallwch apelio yn erbyn y gosb ariannol os oedd yn seiliedig ar gamgymeriad ffeithiol, yn seiliedig ar wall cyfreithiol neu os oedd yn afresymol. Mae angen i chi apelio i'r tribiwnlys haen gyntaf. Mae manylion y tribiwnlys haen gyntaf a'r broses i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/courts-tribunals/first-tier-tribunal-general-regulatory-chamber>

Er mwyn i'r tribiwnlys ystyried eich apêl rhaid ei derbyn cyn xxx [nodwch ddyddiad - 29 diwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl dyddiad rhoi'r hysbysiad hwn] a sail eich apêl yw bod y penderfyniad i roi cosb ariannol:

- a) yn seiliedig ar wall ffeithiol, neu
- b) yn anghywir mewn cyfraith, neu
- c) yn afresymol.

Llofnod

Dyddiad